**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD NOS FAWRTH 21 O FAI 2019 AM 19:30 YN Y SEFYDLIAD COFFA, LLANRUG**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Philip Roberts (Cadeirydd), Haf Williams, Alan Pritchard, Goronwy Hughes, Clifford Williams, Hefin Jones, Meirwen Lloyd, Beca Brown, Cemlyn Jones, Martin Jones.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Richard Robinson, Avril Jones.

**Clerc:** Meirion Jones

**400. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**401. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**402. Datgan buddiant personol.**

Rhain yw nodi fel yn briodol

**403. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Ebrill 2019**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod mis Ebrill 2019 yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.

**404. I drafod unrhyw faterion sydd yn codi o'r cofnodion.**

Trafodwyd nifer o faterion yn deillio o gofnodion Ebrill ond fod rhai ohonynt ar yr agenda ar gyfer cyfarfod heno.

**405. I dderbyn diweddariad ar y sefyllfa mynwent yr Eglwys gan y Parchedig Robert Townsend**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Parchedig Robert Townsend am ddod i'r cyfarfod i ddiweddaru'r Cyngor am y sefyllfa ddiweddara parthed mynwent Eglwys Llanrug.

Nodwyd mai pryder y Cyngor yn ei gyfarfod diwethaf oedd cyflwr y wal sydd yn rhedeg gyferbyn a'r ffordd tuag at fynwent y Cyngor Cymuned. Adroddodd y Parchedig ei fod wedi siarad a'r swyddfa yng Nghaerdydd ac ei fod wedi dwyn i'w sylw pryderon y Cyngor Cymuned am gyflwr y wal.

Adroddodd byddai'r Eglwys yn gyfrifol am drwsio'r wal ond i wneud hyn byddai angen cynllun ar sut i ymdrin a'r gwaith ac y bydd angen gwneud y wal ar ei hyd. Amcangyfrif byddai'r gwaith yn cymryd oddeutu 3 wythnos i'w gwblhau

Oherwydd byddai angen defnyddio’r ffordd tuag at y fynwent, roedd yn bosib y byddai angen cau’r ffordd tra mae’r gwaith yn cael ei wneud.

Holiwyd os byddai yn bosib creu llwybr troed ar gyfer cerddwyr a cytunodd y parchedig Robert Townsend holi’r contractwr. Byddai angen ystyried defnydd o’r fynwent am gyfnod y gwaith a trefniadau parcio i ymwelwyr a llwybr at y fynwent.

Eglurodd y Parchedig fod cyfarfod ganddo gyda’r contractwr ar y 5ed o Fehefin a bydda’n adrodd yn ôl yn dilyn y cyfarfod.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a diolchwyd i’r Parchedig Robert Townsend am fynychu’r cyfarfod ac iddo gysylltu a’r Clerc yn dilyn ei gyfarfod gyda contractwr fyddai yn atgyweirio’r wal.

**406. I ystyried llenwi sedd wag ar y Cyngor**

Nodwyd fod dwy sedd wag wedi codi ar y Cyngor yn ddiweddar ac fod angen penderfyniad y Cyngor i ystyried eu ail lenwi.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i wneud y trefniadau priodol ar gyfer llenwi’r seddi gwag.

**407. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Cwm y Glo.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Alan Pritchard fod yr ysgol yn cau yn swyddogol ar ddiwedd Awst.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**408. I ystyried a derbyn cais Menter Fachwen am eu cynlluniau ar gyfer adeilad Ysgol Cwm y Glo (manylion eisoes wedi ei gylchredeg)**

Datganwyd diddordeb yn yr eitem yma gan Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Goronwy Hughes a Cemlyn Jones ac ni chymerwyd rhan yn y penderfyniad.

Adroddwyd fod Menter Fachwen yn y broses a gymryd adeilad yr ysgol drosodd ac fel rhan o’r broses roedd yn ofynnol i Gyngor Gwynedd gael cadarnhad nad oedd gan y Cyngor Cymuned fwriad i gymryd yr adeilad drosodd ac fod y cyngor yn gefnogol at ymgyrch Menter Fachwen. Roedd adroddiad am y cynllun busnes a bwriad Menter Fachwen eisoes wedi ei gylchredeg i’r aelodau.

**Penderfynwyd:**

a) Cadarnhawyd nad oedd gan y Cyngor Cymuned gynlluniau na bwriad i wneud dim gyda adeilad yr ysgol yn Cwm y Glo;
b) Nad oedd gan y Cyngor wrthwynebiad i gynlluniau Menter Fachwen;

c) Menter Fachwen i'w llongyfarch ar y cynlluniau ac i ddymuno'n dda iddynt yn y fenter;
d) Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd o'r penderfyniad

**409. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

**Strategaeth Toiledau Cyhoeddus**

Yn dilyn ymgynghoriad hefo'r cyhoedd ac eraill mae'r Cyngor Sir erbyn hyn wedi mabwysiadu Strategaeth Toiledau Cyhoeddus newydd. Dyma linc i map o'r holl doiledau yn y sir, gan gynnwys y Parc ac hefyd toiledau cymunedol:-http://www.gwynedd.llyw.cymru/map

**Adroddiad Rheolaethol**

Yn dilyn adroddiad y Prif Weithredwr, penderfynnodd y Cabinet Cytuno i leihau'r nifer o uwch swyddi o fewn y Cyngor o 40 i 37 gan arbed isafswm o £211,000 yn flynyddol.

Cytuwyd i greu Adran Tai ac Eiddo newydd er mwyn galluogi y cyngor i roi mwy o ffocws ar gyflawni eu Strategaeth Tai.
Bydd rhai man newidiadau pellach y bwriedi'r eu gweithredu sy'n cynnwys symud rheolaeth adeiladu i'r adran Amgylchedd er mwyn iddo fod yn agosach at Cynllunio

**Cwmni Byw yn Iach**

Mae Cwmni Byw yn Iach yn awr wedi ei sefydlu, ers 1af o Ebrill 2019. Mae'n braf nodi fod trosglwyddo'r gwasanaeth o'r Cyngor Sir wedi mynd yn eithaf rhwydd, ac ni fu unrhyw newid i'r gwasanaeth i'r cyhoedd. Gan obeithio y gall y cwmni newydd (sydd dan berchnogaeth y Cyngor Sir), llwyddo i ehangu'r gwasanaeth.

**Yn Lleol**


**Llifogydd**

Yn dal i geisio cael datrysiad i ambell leoliad sydd yn dioddef o lifogydd o dro i dro.

Byddaf yn dal i drafod hefo swyddogion i geisio cael gwaith wedi ei wneud, mewn amryw leoliad trwy'r Ward.

**Cau Ffordd**

Rhybudd wedi ei dderbyn - Cau Ffordd Dosbarth III yng Ngheunant ar y 28ain o Fai, 2019, am 2 ddiwrnod ar y mwyaf 3. Dyma'r lleoliad:-



**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**410. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd.**

Gwasanaeth Bws 88

Dyma gopi o amserlen newydd y gwasanaeth bws 88 a fydd yn weithredol o'r 11/5/2019 ymlaen. Hefyd gallwch ei weld drwy fynd i wefan Cyngor Gwynedd: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cludiant

Hafan Elan

Ar 12 Mawrth mynychais gyfarfod rhwng Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) a thrigolion Stad Hafan Elan. Pwrpas y cyfarfod oedd codi pryderon trigolion yr ystâd ynglŷn â diffyg mannau parcio a gofyn i CCG ystyried creu mannau parcio ychwanegol. Dywedodd rheolwr gyda CCG y byddai'n edrych ar yr hyn sy'n bosibl yn y tymor byr a'r tymor hir.

Addawodd y byddai'n cadw'r trigolion a minnau yn y llun ynglŷn ag unrhyw ddatblygiad ar y mater.

Y diweddaraf (9 fed o Faï) yw fod cyfarfod safle wedi cymryd lle rhwng Mike Evans (Swyddog Rheolaeth Tir CCG) a pheiriannydd i drafod unrhyw broblem a all godi o greu llefydd parcio ychwanegol. Unwaith fydd y mater yma wedi ei setlo bydd cynllun yn cael ei greu a'i drafod gydag adran priffyrdd Cyngor Gwynedd.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**411. I ystyried pa gamau gellir eu cymryd i arafu cyflymder traffig sydd yn trafaelio ar y ffordd allan o Llanrug i gyfeiriad Caernarfon ar ôl gadael y cyflymdra gyrru o 30 m.y.a. (Cwynion wedi eu derbyn gan breswylwyr)**

Adroddwyd fod cwyn wedi ei dderbyn gan breswylydd yn mynegi siom nad oedd dim byd wedi ei wneud am y cyflymder ar y ffordd allan o Llanrug i gyfeiriad Caernarfon ac o'r farn fod y cyflymder presennol o 40mya yn rhy uchel.

Derbyniwyd cwyn fod ceir yn ymddangos yn mynd dros yr uchafswm presennol o 40mya yn ogystal.

Derbyniwyd cwyn fod y cyflymder cenedlaethol ar ôl dod allan o 40mya i gyfeiriad Llanrug yn ormod ac ar nifer o adegau mae nifer o ddamweiniau bron a digwydd. (Yn wir pan yn ymweld a teulu sydd yn byw ar hyd y ffordd yma, fu bron i ddamwain ddigwydd o flaen llygaid y Cynghorydd Haf Williams a'r Clerc).

**Penderfynwyd:**

- **a)** Y Clerc i gysylltu a Swyddog o Gyngor Gwynedd a gofyn iddo ddod i gyfarfod a'r Cyngor Cymuned;
- **b)** Cysylltu a rhai sydd wedi cwyno am y cyflymder i'w hysbysu fod y Cyngor Cymuned yn cefnogi eu barn ac yn esbonio beth mae'r Cyngor yn ceisio ei wneud ar eu rhan;
- **c)** Cysylltu a Gan Bwyll i ofyn iddynt am bresenoldeb yn yr ardal

**412. I dderbyn diweddariad am ein cais am grant ar gyfer offer i'r meysydd chwarae.**

Adroddwyd fod Swyddog o Gyngor Gwynedd mewn cysylltiad rheolaidd a'r Clerc ac efallai byddai hwn yn fater i'r Pwyllgor Hamdden a Mwynderau

**413. Cais Cynllunio**

a) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0392/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Troed Yr Allt, 3 Bryn Afon Terrace, Llanrug, Caernarfon, LL554BS

**Dyddiad Cofrestru:** 26/04/2019

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Codi estyniad un llawr cefn

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:**

Cefnogi'r cais oherwydd ei fod yn gwella'r tŷ ac nad ydyw yn amharu ar neb arall

b) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0407/23/LL

**Rhif Cyfeirnod Porth Cynllunio:**

**Lleoliad y Safle:** 10, Rhos Rug, Llanrug, Caernarfon, LL554BG

**Dyddiad Cofrestru:** 02/05/2019

**Math o Gais:** Llawn – Cynllunio

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Estyniad cefn

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais oherwydd ei fod yn gwella'r tŷ ac yn ymateb i anghenion y teulu.

c) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C19/0430/23/LL

**Rhif Cyfeirnod Porth Cynllunio:**

**Lleoliad y Safle:** Pen Y Buarth, Lon Groes, Llanrug, Caernarfon, LL554AF

**Dyddiad Cofrestru:** 02/05/2019

**Math o Gais:** Llawn – Cynllunio

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Codi twnnel poli ar gyfer cadw anifeiliaid

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais oherwydd amgylchiadau arbennig

**414. I ystyried a phenderfynu cyfarfod gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid ar gyfer tymor 2019 – 2020 mae'r gwasanaeth y gofyn am gyfarfod mis Mehefin neu Orffennaf.**

Adroddwyd fod y Cyngor wedi ceisio cyfarfod gyda swyddogion y gwasanaeth ieuenctid oherwydd fod sawl cwestiwn eisiau ymateb cyn penderfynu cytuno a'r cynllun ar gyfer 2019 / 2020. Adroddwyd ymhellach fod cais wedi mynd fewn am gyfarfod ond nad oedd ymateb wedi dod. Erbyn hyn mae'r gwasanaeth wedi cysylltu i holi am gyfarfod yn naill ai mis Mehefin neu Orffennaf.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a threfnu i'r gwasanaeth ddod i gyfarfod mis Mehefin

**415. I ystyried unrhyw fater yn ymwneud a'r Fynwent.**

Adroddwyd fod un pris wedi dderbyn am waith o ymestyn y llwybrau yn y fynwent ac fod hwnnw yn uchel.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gael dau bris ychwanegol am y gwaith

Adroddwyd fod gwaith o symud y ffens yn y fynwent ar gyfer ei pharatoi ar gyfer ehangu'r gofod claddu angen ei wneud.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i holi ein contractwr am bris

**416. I ystyried a derbyn cynnig o rodd o 'planter' oddi tan arwydd Llanrug.**

Adroddwyd fod cynnig wedi ei roi gan etholwr i roi 'planter' oddi tan arwydd croeso i Llanrug yn ochr Caernarfon.

**Penderfynwyd:** Derbyniwyd a diolchwyd am y cynnig a'r clerc i hysbysu'r cynigiwr o werthfawrogiad y Cyngor am ei haelioni

**417. Taliad i aelodau – Dylid penderfynu ar bolisi o sut i ymdrin a taliadau i aelodau sydd yn ymuno a'r Cyngor ar ôl 1af o Ebrill neu yn gadael cyn 31 o Fawrth.**

Adroddwyd fod angen penderfyniad gan y Cyngor o sut i ymdrin a thaliadau i aelodau sydd yn ymuno neu adael yn ystod y flwyddyn.

**Penderfynwyd:** Y taliadau i'w gwneud ar sail pro rata

**418. Cyfeiriadau e bost llanrug.cymru – oherwydd fod rhain nawr mewn lle argymhellir dim ond defnyddio y cyfeiriad e bost yma nawr ar gyfer gwaith Cyngor Cymuned dyma fydd y cyfeiriad e bost ar ein gwefan ar gyfer sut i gysylltu a'r aelod.**

Nodwyd fod cyfeiriad e-bost @llanrug.cymru bellach wedi ei sefydlu ar gyfer bob aelod ac fod angen caniatâd mai dim ond y cyfeiriad yma fyddai yn cael ei ddefnyddio o hyn ymlaen ar gyfer y Cyngor.

**Penderfynwyd:** O'r cyfarfod yma, yna defnyddio cyfeiriadau e-bost @llanrug.cymru

**419. I ystyried a penderfynu ar pa gamau i'r cymryd yn dilyn cwyn am lwybr cyhoeddus (Cyng Goronwy Hughes) (Manylion eisoes wedi eu cylchredeg)**

Adroddwyd fod cwyn wedi ei dderbyn am ddigwyddiad parthed llwybr cyhoeddus.

**Penderfynwyd:** Ei basio 'mlaen i Gyngor Gwynedd

Daeth y cyfarfod i ben am 21:35

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: